Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith



# Claddu ac Amlosgi

## Crynodeb o'r Papur Ymgynghori

# Yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **Pwy ydym ni?** | Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r llywodraeth ynglŷn â diwygio'r gyfraith. |
| **Beth rydym yn ei wneud?** | Rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch ein cynigion dros dro i ddiwygio'r gyfraith sy'n rheoli claddu ac amlosgi. |
| **Am beth mae'n sôn?** | Y gyfraith sy'n ymwneud â chladdu ac amlosgi. |
| **Pam rydym yn ymgynghori?** | Rydym yn gofyn am farn am ein cynigion dros dro ac yn gofyn cwestiynau. Bydd eich safbwyntiau'n cael eu hystyried yn ofalus pan fyddwn ni'n penderfynu ar ein hargymhellion terfynol. |
| **Gan bwy rydym yn dymuno clywed?** | Rydym yn awyddus i gael ymatebion gan gynifer o randdeiliaid â phosibl. Mae hynny'n cynnwys y rheini sy'n gweithredu claddfeydd neu amlosgfeydd, y rheini sy'n eu defnyddio, trefnwyr angladdau, a'r rheini sydd â diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd i'n cyrff ar ôl i ni farw. |

| | |
|---|---|
| **Beth yw’r dyddiad cau** | Mae’r ymgynghoriad yn para 14 wythnos ac yn dod i ben ar 9 Ionawr 2025. |
| **Beth fydd yn digwydd nesaf?** ➡ | Ar ôl adolygu pob ymateb, byddwn ni’n penderfynu ar ein hargymhellion terfynol dros ddiwygio’r gyfraith, a byddwn ni’n cyhoeddi’r rheini mewn adroddiad ar ddiwedd 2025. |

## Y crynodeb hwn

Dydy’r crynodeb hwn ddim yn crynhoi pob un o’r cwestiynau na’r cynigion dros dro sydd i’w gweld yn y Papur Ymgynghori manwl. Yn hytrach na hynny, mae’n esbonio’r prosiect, yn rhoi rhywfaint o gyd-destun, ac yna’n tynnu sylw at y prif faterion sy'n cael eu trafod yn y Papur Ymgynghori. Diben y crynodeb hwn yw rhoi trosolwg o’r materion sylweddol hynny. Mae Cwestiynau Ymgynghori yn y Papur Ymgynghori nad ydynt yn cael eu trafod yn y crynodeb hwn.

Cyn ymateb, hoffem eich annog i ddarllen y Papur Ymgynghori llawn, neu'r rhannau perthnasol ohono. Does dim rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn ein hymgynghoriad. Mae’r crynodeb hwn yn cyfeirio at benodau’r Papur Ymgynghori.

Dydi’r Papur Ymgynghori ddim yn cynnwys unrhyw argymhellion terfynol ar gyfer diwygio’r gyfraith. Yn hytrach, mae’n gwneud cynigion dros dro. Byddwn ni’n dadansoddi’r ymatebion a gawn ac yn ystyried pa argymhellion y byddwn yn eu gwneud yn ein hadroddiad i’r Llywodraeth. Mater i’r Llywodraeth wedyn fydd penderfynu sut i symud ymlaen â’r rheini, ac i’r Senedd basio unrhyw Ddeddfau newydd sydd eu hangen i newid y gyfraith.

# Ymateb i'n hymgynghoriad

Mae'r Papur Ymgynghori llawn ar gael ar ein gwefan: https://lawcom.gov.uk/project/burial-and-cremation/. Rhaid cyflwyno ymatebion erbyn 9 Ionawr 2025.

Rydym yn eich annog i gyflwyno eich ymateb gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael drwy'r ddolen uchod. Defnyddiwch y dull hwn, os oes modd gwneud hynny.

Fel arall, gallwch anfon eich sylwadau fel a ganlyn:

- dros e-bost i bcnfm@lawcommission.gov.uk; neu
- drwy'r post i Burial and Cremation project, Property, Family and Trust Law team, Law Commission, 1st Floor, 52 Queen Anne's Gate.

Os byddwch chi'n anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai hefyd yn ddefnyddiol eu hanfon yn electronig, os oes modd gwneud hynny.

Gofynnwn i bawb sy'n ymateb i'r ymgynghoriad beidio â chynnwys gwybodaeth bersonol a allai ddatgelu pwy ydyn nhw yn y testun, yn enwedig pe bai modd i hyn ddatgelu pwy yw pobl eraill wrth edrych ar y wybodaeth honno.

Mae rhai o'r Cwestiynau Ymgynghori yn gofyn am farn ymgyngoreion ar gynnig dros dro, lle rydym yn credu bod digon o dystiolaeth i ni eirioli dros ffordd benodol ymlaen. Mae eraill yn gofyn cwestiynau agored, gan wahodd ymgyngoreion i rannu eu safbwyntiau lle nad ydym yn gwneud cynnig dros dro.

# Pam mae angen diwygio?

Mae oddeutu hanner miliwn o bobl yn marw yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn, a bydd pob marwolaeth yn effeithio ar fywydau llawer o bobl eraill. Bydd bron pob un o gyrff y rhai sy'n marw yn cael eu claddu neu eu hamlosgi, ac felly bydd y maes hwn o'r gyfraith yn effeithio ar sut mae pob un ohonom yn galaru ac yn coffáu ein colledion. Mae'r maes hwn o'r gyfraith yn effeithio arnom fel unigolion, a hefyd fel aelodau o wahanol gymunedau a chrefyddau. Mae'r parch rydym yn ei ddangos i'r meirw yn bwysig i gymdeithas gyfan.

Mae'r prosiect hwn yn gwneud cynigion dros dro ar gyfer diwygio'r gyfraith sy'n rheoli claddu ac amlosgi. Mae'n gyfle allweddol i ddiwygio'r gyfraith yn sylweddol yn y ddau faes hyn. Mae rhywfaint o'r gyfraith ar gladdu wedi aros yr un fath ers y 1850au, ac mae'r prif ddarn o ddeddfwriaeth ar amlosgi yn dyddio i 1902. Nid yw agweddau ar y gyfraith yn ei chyflwr presennol yn cynnig digon o amddiffyniad i bobl sy'n claddu neu'n amlosgi eu teulu a'u ffrindiau. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod perygl na fydd unrhyw leoedd claddu ar gael yn y dyfodol, sy'n fater y gellid helpu i fynd i'r afael ag ef drwy ddiwygio'r gyfraith.

## Rheoleiddio claddfeydd

Mae cyfraith claddu wedi esblygu dros y canrifoedd, gan symud o fod yn gyfrifoldeb Eglwys Loegr yn unig i fod yn sector claddu amrywiol fel y gwelwn heddiw. O ganlyniad, mae gwahanol gyfreithiau'n berthnasol i'r claddfeydd sy'n cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol, Eglwys Loegr, yr Eglwys yng Nghymru, ac i wahanol fathau o gladdfeydd preifat.

**Claddfeydd "preifat"**

Pan fyddwn ni'n cyfeirio at gladdfeydd "preifat" yn y Papur Ymgynghori hwn, rydym yn cynnwys claddfeydd sy'n cael eu gweithredu gan gwmnïau preifat. Ond rydym hefyd yn cynnwys pob claddfa nad ydynt yn cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol nac Eglwys Loegr (na'r Eglwys yng Nghymru, mewn rhai cyd-destunau). Mae hynny'n cynnwys, er enghraifft, claddfeydd sy'n cael eu rhedeg gan elusennau neu grefyddau eraill.

Mae rhywfaint o'r gyfraith sy'n berthnasol i gladdfeydd yn dros 170 oed, ac yn anaddas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae datblygiad amrywiol cyfraith claddu hefyd yn golygu ei bod yn cynnwys bylchau sylweddol. Mewn llawer o gladdfeydd preifat ac mewn mynwentydd Eglwys Loegr does dim yn ei le i reoli'r ffordd y dylid claddu cyrff. Mae safonau gwahanol o ran sut y dylid cynnal claddfeydd, a does dim un ohonynt yn berthnasol i lawer o fynwentydd preifat. Yn yr achosion prin lle ceir problemau mewn mynwentydd preifat, gall hynny ei gwneud yn anodd i'r Llywodraeth gymryd camau i orfodi safonau. Mae rheolau eraill yn anghyson, fel y rheini sy'n llywodraethu'r hawliau i leoedd ar gyfer beddi y gellir eu prynu, neu'r amddiffyniadau ychwanegol a roddir i gladdedigaethau aelodau o'r lluoedd arfog a fu farw yn ystod y ddau Ryfel Byd.

## Ailddefnyddio ac adfer hen feddi

Mae adfer beddi'n golygu defnyddio'r gofod uwchben y cyrff sydd wedi eu claddu mewn bedd ar hyn o bryd i wneud rhagor o gladdedigaethau. Mae hyn eisoes yn bosibl mewn amgylchiadau lle nad oes neb yn berchen ar yr hawl ar fedd, ac ni fyddai ein diwygiadau arfaethedig yn newid hyn. Ystyr ailddefnyddio beddi yw pan fydd gweddillion mewn hen fedd yn cael eu datgladdu, eu hailgladdu, a bod y bedd yn cael ei defnyddio unwaith eto. Mae ailddefnyddio beddi yn cael ei ymarfer a'i ddeall yn gyffredin mewn llawer o wledydd. Er bod ei ddefnydd yn llai cyffredin a bod llai'n ymwybodol ohono yng Nghymru a Lloegr, nid yw'n syniad newydd o bell ffordd. Mae'r drefn o ailddefnyddio wedi cael ei defnyddio mewn mynwentydd Eglwys Loegr ers cyn cof, ac mae hyn hefyd yn cael ei chaniatáu mewn mynwentydd awdurdodau lleol yn Llundain, a thair mynwent arall o ganlyniad i Ddeddfau Seneddol preifat.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod lleoedd ar gyfer beddi yn brin mewn sawl rhan o'r wlad. Gallai ailddefnyddio ac adfer hen feddi helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon, ar yr amod bod y gyfraith a fyddai'n galluogi hynny'n cynnwys digon o fesurau diogelu i sicrhau cefnogaeth y cyhoedd. Ond mewn mynwentydd awdurdodau lleol y tu allan i Lundain, ac mewn mynwentydd preifat a mynwentydd crefyddol nad ydynt yn rai Eglwys Loegr, nid yw'r gyfraith yn caniatáu ailddefnyddio beddi. Ffordd arall o greu mwy o le claddu fyddai ailagor claddfeydd, yn enwedig mynwentydd Eglwys Loegr, a gaewyd yn y gorffennol – ymhell dros ganrif yn ôl mewn rhai achosion. Ond nid yw'r gyfraith yn caniatáu hyn chwaith.

## Claddfeydd segur

Os nad yw claddfeydd yn cael ei ddefnyddio mwyach, efallai y daw adeg pan fyddai'n well gwneud defnydd arall o'r tir. Ar hyn o bryd mae gwaharddiad cyffredinol ar adeiladu dros gladdfeydd segur. Fodd bynnag, nid yw hwn yn waharddiad absoliwt ac mewn mynwentydd Eglwys Loegr, claddfeydd crefyddol preifat eraill, ac mewn claddfeydd sydd wedi cael eu prynu'n orfodol neu eu

haddasu i'w datblygu gan awdurdodau cyhoeddus, mae'r gyfraith yn cynnig eithriad i'r gwaharddiad hwn. Os bydd perchennog y gladdfa'n dilyn mesurau diogelu penodol, gallant ddatblygu'r tir a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer claddu. Ar gladdfeydd Eglwys Loegr a rhai crefyddol preifat, mae hynny'n cynnwys cyfnod o 50 mlynedd pryd y gall teulu'r rhai sydd wedi'u claddu yn y gladdfa roi feto ar unrhyw ddatblygiad.

Nid oes darpariaeth o'r fath ar gyfer claddfeydd preifat eraill a mynwentydd awdurdodau lleol, sy'n golygu nad yw'n bosibl defnyddio'r tir hwnnw yn y dyfodol.

### Amlosgi

Cafodd y rheoliadau sy'n rheoli amlosgi eu diwygio'n fwy diweddar na chyfraith claddu. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd cyfreithiol sy'n achosi problemau i'r rheini sy'n gweithio yn y sector, neu lle gellir dadlau nad yw'r gyfraith bellach yn cyflawni'r diben y cafodd ei phasio ar ei gyfer.

Er enghraifft, ar hyn o bryd mae nifer sylweddol o setiau o lwch o amlosgi y mae trefnwyr angladdau wedi'u cael gan yr amlosgfeydd, ond sydd heb gael eu casglu gan deulu neu ffrindiau'r person ymadawedig. Ond er bod gan amlosgfeydd ganiatâd i wasgaru llwch sy'n cael ei adael yn eu gofal, does dim darpariaeth i alluogi trefnwyr angladdau i ddelio â nhw.

Yn yr un modd, rhaid i drefnwyr angladdau sicrhau bod rheoliaduron calon yn cael eu tynnu o gyrff pobl sydd wedi marw cyn amlosgi, neu fel arall byddant yn achosi difrod i offer yn yr amlosgfa. Ond oherwydd bod nodwedd yn y canllawiau ar reoliaduron calon gan yr Adran Iechyd, nid oes gan drefnwyr angladdau hawl gyfreithiol i'w gwaredu, sy'n golygu eu bod yn cadw nifer fawr o'r dyfeisiau.

Mae cyfraith amlosgi hefyd yn cynnwys rheol bod rhaid i amlosgfeydd gael eu hadeiladu o leiaf 200 llath i ffwrdd o gartrefi a 50 llath i ffwrdd o briffordd. Cyflwynwyd y rheol honno pan oedd pryderon ynghylch effeithiau allyriadau o amlosgfeydd ar iechyd y cyhoedd. O ystyried effaith technoleg fodern o ran lleihau'r effeithiau hynny, mae rhanddeiliaid wedi codi cwestiynau ynghylch a oes angen y rheol honno yn yr oes fodern.

## Y prosiect cyffredinol

Mae'r Papur Ymgynghori hwn yn rhan o brosiect cyffredinol o'r enw **Claddu, Amlosgi a Dulliau Angladdol Newydd**. Mae'r prosiect hwnnw'n bodoli oherwydd bod rhanddeiliaid wedi dweud wrthym, mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus agored fel rhan o'n 13eg Rhaglen Diwygio'r Gyfraith yn 2017, nad yw'r gyfraith sy'n rheoli'r ffordd rydym yn delio â chyrff pobl farw yn gyfredol ac nad yw'n addas i'r diben.

Gan fod y materion dan sylw mor eang, rydym wedi rhannu'r prosiect yn dair rhan. Yn ogystal â'r un hwn, ar **Gladdu ac Amlosgi**, mae yna ddau arall:

1. **Dulliau Angladdol Newydd**, a fydd yn nodi fframwaith rheoleiddio priodol ar gyfer dulliau newydd fel hydrolysis alcalïaidd a chompostio dynol, sy'n cael eu defnyddio mewn awdurdodaethau eraill. Rydym wrthi'n llunio'r rhan hon ar hyn o bryd; ac
2. **Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag Angladdau, Dulliau Angladdol, a Gweddillion**, a fydd yn ystyried a ddylai penderfyniadau rydych chi'n eu gwneud am eich corff ar ôl marw fod yn rhwymol, a sut y dylid datrys anghydfodau ynghylch dulliau angladdol a gweddillion. Bydd y rhan hon yn dechrau ddiwedd 2025.

## Claddu, Amlosgi a Dulliau Angladdol Newydd

### Claddu ac Amlosgi

- Yn destun yr ymgynghoriad hwn.
- Adrodd yn 2025
- Bil Drafft ar ddiwedd rhan Hawliau a hwymedigaethau'r prosiect
- Ystyried y gyfraith sy'n rheoli dulliau angladdol presennol

### Dulliau Angladdol Newydd

- Ar waith ar hyn o bryd
- Ymgynghoriad yn 2025
- Adroddiad a'r Bil drafft yng ngwanwyn 2026
- Ystyried rheoleiddio dulliau newydd

### Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag Angladdau, Dulliau Angladdol, a Gweddillion

- Yn dechrau ar ddiwedd 2025
- Adroddiad ar ddiwedd 2027
- Ystyried a ddylai dymuniadau angladd fod yn rhwymol, a sut i ddatrys anghydfodau
- Bil Drafft ar ddiwedd yr elfen hon, sydd hefyd yn ymdrin â Chladdu ac Amlosg

Mae rhai materion sy'n ymwneud â'r maes hwn o'r gyfraith y tu allan i gwmpas y prosiect. Ymysg eraill, mae'r rhain yn cynnwys cofrestru marwolaethau, rheoleiddio trefnwyr angladdau, a chyfraith cynllunio ac amgylcheddol.

Mae cyfraith claddu ac amlosgi yn faterion y mae gan y Senedd, deddfwrfa ddatganoledig Cymru, y pŵer i wneud deddfau newydd arnynt. Byddai angen naill ai Ddeddf gan y Senedd cyn cyflwyno unrhyw ddiwygiadau y mae angen deddfwriaeth sylfaenol newydd arnynt, neu i'r Senedd roi cydsyniad i Senedd San Steffan ddeddfu.

Mae'r crynodeb hwn yn nodi'n gyntaf sut mae cyfraith claddu ac amlosgi wedi esblygu dros amser, ac yn nodi rhai materion sy'n berthnasol i'r maes cyfreithiol hwn yn ei gyfanrwydd. Mae wedyn yn mynd i'r afael â mater sylweddol o ailddefnyddio beddi, a materion eraill sy'n ymwneud ag argaeledd mannau claddu yn y dyfodol a chynaliadwyedd claddfeydd. Yna, rydym yn edrych ar reoleiddio claddfeydd, ac, yn olaf, cyfraith amlosgi.

## Datblygiad cyfraith claddu ac amlosgi

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae cyfraith claddu ac amlosgi wedi datblygu dros y canrifoedd.

| | Claddu | Amlosgi |
|---|---|---|
| **Cyn 1800** | Eglwys Loegr sy'n gyfrifol am gladdu. Mae claddfeydd ar gyfer crefyddau eraill, ac anghydffurfwyr Cristnogol Protestannaidd, yn dechrau cael eu datblygu. | Nid yw'n arferol i ymarfer amlosgi yn y DU. |
| **1800au** | Yn gyntaf, mae cwmnïau mynwentydd preifat yn cael eu sefydlu, yn aml gan Ddeddfau Seneddol. Mae Deddf Cymalau Mynwentydd 1847 yn sefydlu templed ar gyfer Deddfau o'r fath.<br><br>Yna, mae Deddfau Claddu olynol yn gwneud darpariaeth i Fyrddau Claddu redeg mynwentydd cyhoeddus, a rhywfaint o reoleiddio ar gladdu, gan gynnwys pwerau i gau mynwentydd. | Mae rhai pobl mewn cymdeithas yn dechrau eiriol dros amlosgi fel dull angladdol mwy glanweithiol.<br><br>Mae achos *R v Price* (1884) yn sefydlu nad yw amlosgi'n anghyfreithlon.<br><br>Mae Deddfau Seneddol Lleol yn galluogi cynghorau neu gorfforaethau i sefydlu amlosgfeydd. |
| **1900au** | Mae Deddf yr Eglwysi Cymreig (Claddfeydd) 1945 yn datrys sefyllfa mynwentydd yr Eglwys yng Nghymru ar ôl eu datgysylltu.<br><br>Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 yn disodli llawer o'r Deddfau Claddu gyda phwerau symlach i gynghorau plwyf a chynghorau dosbarth ddarparu mynwentydd. | Mae Deddf Amlosgi 1902 yn cael ei phasio, sy'n galluogi awdurdodau lleol i sefydlu amlosgfeydd, gyda rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno yn rheoli sut y dylid mynd ati i amlosgi ym mhob amlosgfa.<br><br>Mae amlosgi'n dod yn gyffredin erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif. |
| **Heddiw** | Canlyniad datblygu cyfraith claddu dros y canrifoedd yw bod claddu bellach yn sector amrywiol, gyda rhaniad tair ffordd yn fras rhwng claddfeydd Anglicanaidd, awdurdodau lleol, a chladdfeydd preifat. | Cynnydd mewn amlosgi uniongyrchol, lle mae amlosgi'n digwydd heb wasanaeth angladdol ar yr un pryd. |

## Cyfraith eglwysig

Eglwys Loegr yw'r eglwys sefydledig yn Lloegr, sy'n golygu bod ganddi berthynas ffurfiol â'r wladwriaeth. Un elfen o'r berthynas honno yw bod gan Eglwys Loegr ei llysoedd ei hun. Gall un llys o'r fath, y llys consistori, wrando ar geisiadau am fath o benderfyniad a elwir yn "hawleb". Mae angen hawleb er mwyn caniatáu sawl math o newidiadau i fynwentydd.

## Yr Eglwys yng Nghymru

Crëwyd yr Eglwys yng Nghymru ym 1920 pan ddaeth rôl Eglwys Loegr fel yr eglwys sefydledig yng Nghymru i ben. Yn dilyn datgysylltu, cadwodd y ddyletswydd sydd gan Eglwys Loegr yn Lloegr i gladdu'r holl blwyfolion heb wahaniaethu.

## Safbwyntiau crefyddol a diwylliannol tuag at gladdu ac amlosgi

Mae gan wahanol grefyddau a diwylliannau ddulliau gwahanol o gladdu ac amlosgi. Nid yw'r ddau brif enwad Cristnogol, yr Eglwys Anglicanaidd a'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn mynnu'r naill ddull na'r llall. Maen nhw'n mynnu bod llwch yn cael ei gladdu neu ei wasgaru (ei osod ar y ddaear a'i orchuddio â phridd) ar dir cysegredig. Mae Islam yn gosod gwaharddiad ar amlosgi. Felly hefyd Iddewiaeth Uniongred, ond nid y traddodiadau Rhyddfrydol neu Ddiwygiedig, ac rydym wedi clywed bod rhai cymunedau Caribïaidd ac Affricanaidd yn y DU yn ffafrio claddu'n bendant. Mae Hindŵaeth a Sikhiaeth yn gorchymyn amlosgi.

# Ailddefnyddio ac adfer hen feddi

## Yr angen i ailddefnyddio ac adfer hen feddi

Mae arolygon wedi canfod bod mannau claddu'n mynd yn brin. Canfu arolwg gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2007 fod 30 mlynedd o le ar ôl ar gyfartaledd mewn mynwentydd awdurdodau lleol, gyda llai o amser mewn ardaloedd trefol. Mae astudiaethau eraill wedi awgrymu bod awdurdodau claddu wedi dod o hyd i strategaethau i ryddhau rhagor o le, fel defnyddio gofod nad oedd wedi'i fwriadu ar gyfer claddedigaethau, ond mae'n bosibl na fydd y dull hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae'n anodd sefydlu cyswllt achosol rhwng argaeledd gofod mewn mynwentydd, a chost angladd, a fydd yn cynnwys ystod o wasanaethau. Serch hynny, mae cost angladdau'n codi. Canfu adroddiad blynyddol diweddaraf *Cost of Dying* SunLife fod cost angladd sylfaenol wedi codi o £3,953 i £4,141 rhwng 2022 a 2023, ac wedi cynyddu 126% dros 20 mlynedd. Rydym wedi clywed gan randdeiliaid y gall cost claddu mewn rhai mynwentydd yn Llundain, yn enwedig rhai preifat, fod yn agos at £10,000.

Gellir datblygu claddfeydd newydd i ddiwallu'r angen hwn. Mae hynny'n gost sylweddol i weithredwyr claddfeydd, ac mae'n costio miliynau fel arfer. Mae gorchymyn fod tir newydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer claddu yn golygu na ellir ei ddefnyddio at ddibenion eraill, a gallech fod yn colli cyfle, ar adeg pan mae cymaint o drafodaethau cyhoeddus ynghylch argaeledd tir ar gyfer tai. Pan fydd pob llain gladdu mewn mynwent yn cael ei ddefnyddio unwaith yn unig, dros gyfnod o amser ni fydd y fynwent yn cyflawni ei

phwrpas gwreiddiol ac mae perygl iddi fynd i gyflwr gwael a dod yn safle ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae ailddefnyddio ac adfer beddau yn ddatrysiad posibl i'r problemau sy'n deillio o brinder lle claddu.

## Y gyfraith bresennol

Hawliau claddu unigryw yw'r hawliau i reoli man ar gyfer bedd: i benderfynu pwy sydd wedi'i gladdu ynddo a gosod unrhyw gofeb drosto. Mae dau fath o gladdfeydd sydd â phwerau i ddileu hawliau claddu yn gynnar:

1. mynwentydd awdurdodau lleol yn Llundain; a
2. mynwentydd sydd wedi sicrhau eu Deddfau Seneddol eu hunain at y diben hwnnw (sef Mynwent Highgate, Mynwent New Southgate, a Mynwent Bishop's Stortford).

Mae gan y mynwentydd hyn y pŵer i ailddefnyddio beddau hefyd, sef pan fydd olion mewn hen fedd yn cael eu datgladdu a'u hailgladdu, ac mae'r bedd yn cael ei ddefnyddio eto. Yn nes ymlaen yn yr adran hon, byddwn ni'n nodi'r gwahanol gamau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ddileu hawliau claddu ac yna ailddefnyddio beddau, yn y mynwentydd hyn.


Ym mynwentydd Eglwys Loegr, mae ailddefnyddio beddi wedi cael ei ganiatáu ers cyn cof, ac mae angen hawleb os oes angen symud cofebion neu weddillion i'w ailddefnyddio. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r drefn o ailddefnyddio beddi mewn perthynas ag Eglwys Lloegr. Mae adfer beddi'n golygu defnyddio'r gofod uwchben y cyrff sydd wedi eu claddu mewn bedd ar hyn o bryd i wneud rhagor o gladdedigaethau. O dan y gyfraith bresennol, gellir adfer bedd os nad oes hawliau claddu unigryw mewn perthynas ag ef. Efallai mai'r rheswm am hynny yw bod yr hawliau wedi dod i ben, oherwydd na fu erioed, neu oherwydd eu bod wedi cael eu diddymu yn y mynwentydd sydd â phwerau o'r fath. Ni fyddai ein cynigion dros dro yn newid y sefyllfa hon. Fodd bynnag, byddent yn caniatáu i fwy o gladdfeydd ddileu hawliau claddu mewn beddau, ac ar ôl hynny gallent eu hadfer.

### Diddymu hawliau claddu

Mae'r un rheolau'n berthnasol o ran diddymu hawliau claddu, p'un a yw'r bedd wedyn yn cael ei ailddefnyddio neu ei adfer. Er mwyn diddymu hawliau claddu mewn bedd, rhaid nad oes unrhyw gladdedigaethau wedi digwydd ers o leiaf 75 mlynedd. Rhaid i weithredwr y gladdfa gyhoeddi hysbysiad a'i gyflwyno i berchennog cofrestredig y bedd. Ar ôl dim llai na chwe mis, bydd yr hawliau'n cael eu diddymu. Mae'n bosibl y bydd unrhyw garreg fedd yn cael ei thynnu, a gellir ei ddinistrio os na chaiff ei chasglu ar ôl tri mis.

Os yw perchnogion yr hawl claddu yn gwneud unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod hwnnw, yna ni fydd yr hawl yn cael ei diddymu. Mae unrhyw wrthwynebiadau eraill hefyd yn atal y broses, oni bai fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi ei ganiatâd. Mae darpariaethau i gofrestrydd ddatrys unrhyw anghydfod ynghylch perchnogaeth, i gofnodi ac adneuo manylion unrhyw gerrig beddi gyda'r Cofrestrydd Cyffredinol, ac ar gyfer iawndal am unrhyw hawl wedi'i diddymu sydd i'w thalu os gwneir hawliad o fewn chwe mis. Nid yw'r pŵer i ddileu hawliau claddu'n gynnar yn berthnasol i unrhyw hawliau a roddwyd ar ôl i'r darpariaethau hyn ddod i rym.

Unwaith y bydd hawliau claddu wedi'u diddymu mewn bedd ac wedi delio ag unrhyw gofebion, nid yw'r gyfraith yn mynnu unrhyw gamau pellach dan y gyfraith cyn y gellir adfer bedd.



## Ailddefnyddio beddi

Unwaith y bydd unrhyw hawliau claddu unigryw wedi'u diddymu, rhaid cymryd camau ychwanegol cyn y gellir ailddefnyddio bedd. Y man cychwyn ar gyfer ailddefnyddio beddi yw bod angen naill ai trwydded datgladdu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder cyn symud gweddillion dynol neu, os yw'r gweddillion ar dir a gysegrwyd gan Eglwys Loegr, hawleb gan y llysoedd eglwysig. Mae'r Deddfau Seneddol sy'n caniatáu ailddefnyddio beddi'n eithriad i'r gofyniad am drwydded (ond nid ar gyfer hawlebau).

Gellir ailddefnyddio bedd drwy godi'r gweddillion sydd eisoes oddi mewn iddo, ac ailgladdu'r gweddillion naill ai ar lefel ddyfnach (sy'n cael ei alw'n ddull "codi a dyfnhau"), neu mewn bedd arall ("codi ac ailgladdu"). Dim ond mewn mynwentydd cyngor yn Llundain y caniateir codi a dyfnhau, ond caniateir codi a chladdu yn y mynwentydd sydd wedi sicrhau Deddfau Seneddol preifat.

Mae mesurau diogelu ar waith ar gyfer ailddefnyddio beddi, sy'n debyg i'r rheini ar gyfer diddymu hawliau claddu unigryw. Dim ond beddi lle cafodd y gweddillion olaf eu hailgladdu o leiaf 75 mlynedd yn ôl y gellir eu hailddefnyddio. Rhaid i weithredwr y safle claddu gyflwyno'r hysbysiad, ac os yw perchennog yr hawl gladdu neu berthnasau'r ymadawedig yn gwrthwynebu ailddefnyddio'r bedd, ni all unrhyw ymgais pellach ddigwydd am 25 mlynedd arall.

## Diwygio'r gyfraith

Mae perygl y bydd y gyfraith fel y mae ar hyn o bryd yn golygu na fydd lleoedd claddu ar ôl; mae perygl y bydd y gost o gladdu'n parhau i godi; mae'n cael effaith benodol ar gymunedau crefyddol a diwylliannol lle mae claddu'n ofynnol; mae perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol wrth i gyflwr mynwentydd waethygu; ac mae'n golygu bod gweithredwyr claddfeydd yn wynebu cost o agor claddfeydd newydd.

Mae'n creu anghysondeb sylweddol o ran yr arfau i ddelio â'r problemau hyn rhwng gwahanol fathau o gladdfeydd, a gwahanol rannau o'r wlad.

Am y rhesymau hyn, rydym yn credu y byddai ymestyn pwerau ailddefnyddio ac adfer beddi'n ddymunol. Rydym yn cydnabod bod ailddefnyddio hen feddi'n fater sensitif. Byddai ein cynigion dros dro yn cyflwyno mesurau diogelu mewn dau gam. Yn gyntaf, byddai'n rhaid i weithredwr claddfa ymgynghori â'r gymuned leol cyn cael pwerau ailddefnyddio ac adfer beddi ar gyfer y fynwent. Yna, byddai mesurau diogelu ar waith cyn y gellid ailddefnyddio neu adfer unrhyw fedd penodol.

## Sicrhau pwerau ailddefnyddio ac adfer

Mae'n bwysig nodi na fyddai'n rhaid i weithredwr claddfa ailddefnyddio nac adfer beddi. Byddai ein diwygiadau arfaethedig ond yn rhoi'r dewis iddynt wneud hynny.

Er mwyn cael pwerau i ailddefnyddio ac adfer beddi, rydym yn cynnig dros dro y dylai fod yn ofynnol i weithredwyr claddfeydd wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am benderfyniad. Byddai angen iddynt gyflwyno canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus, a chynllun ailddefnyddio ac adfer beddi, gan gynnwys gwybodaeth am y beddi yr effeithir arnynt, cynllun cadwraeth, ac unrhyw gamau lliniaru a fyddai'n cael eu nodi drwy'r ymgynghoriad.

Rydym yn cydnabod bod y gofynion hyn yn feichus ac y byddai'n cymryd amser ac yn costio arian i gydymffurfio â nhw. Gallent leihau'r graddau y mae beddi'n cael eu hailddefnyddio. Fodd bynnag, bydd y costau dan sylw'n llai na'r ymdrech a'r gost o sicrhau Deddf Seneddol breifat, a byddai'r dull hwn yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd.

## Mesurau diogelu ar gyfer ailddefnyddio neu adfer unrhyw fedd penodol

Rydym yn gwneud cynnig dros dro y dylai'r pwerau ailddefnyddio ac adfer beddi estynedig gynnwys yr un mesurau diogelu'n fras ar gyfer pob math o gladdfa â'r rheini sydd ar waith yn y mannau lle caniateir hynny eisoes. Felly, dylai gwrthwynebiad gan berthnasau'r ymadawedig neu berchennog y bedd arwain at atal y bedd rhag cael ei hailddefnyddio am 25 mlynedd.

Dylai fod yn ofynnol i weithredwr y gladdfa ddweud wrth brynwr posibl bod bedd y mae'n ystyried ei brynu i gael hawl claddu unigryw yn un sy'n cael ei ailddefnyddio neu ei adfer.

Un cwestiwn allweddol rydym yn ymgynghori arno yw pa mor hir y dylai'r cyfnod fod rhwng y gladdedigaeth ddiwethaf mewn bedd, a'r adeg y gellir ei ailddefnyddio neu ei adfer. Y cyfnod presennol cyn y caniateir ailddefnyddio neu adfer yw 75 mlynedd. Cyfeirir at ddwy brif ystyriaeth pan ddaw'n fater o beth ddylai hyd y cyfnod hwnnw fod: yr amser y mae'n ei gymryd i gorff ddadelfennu'n naturiol, a sicrhau nad yw beddi'n cael eu hailddefnyddio yn ystod oes rhywun a oedd yn adnabod yr ymadawedig. Ar y sail honno, rydym yn gofyn cwestiwn agored gan ymgynghori ar gyfnod o 75 mlynedd, 100 mlynedd, neu gyfnod arall.

Rydym yn cynnig dros dro y dylid caniatáu dulliau codi a dyfnhau a chodi ac ailgladdu pan fydd bedd yn cael ei ailddefnyddio. Rydym yn gofyn a ddylai fod gofyniad na ddylid ailddefnyddio bedd os yw'n dal i gynnwys gweddillion sylweddol o gladdedigaeth flaenorol. Rydym hefyd yn gofyn a ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol allu caniatáu ailddefnyddio bedd ar ôl cyfnod byrrach o amser mewn amgylchiadau eithriadol.

Gweler Cwestiynau 18 i 24 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 6 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

## Ein cynigion dros dro i ailddefnyddio ac adfer beddi

**Sicrhau pwerau ailddefnyddio ac adfer beddi**

- Gweithredwr y safle claddu yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus
- Cyflwyno cynllun ailddefnyddio ac adfer beddi i'r Ysgrifennydd Gwladol

Yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwrthod y cais

Ni chaniateir dileu hawliau claddu a/neu ilddefnyddio beddi

Yr Ysgrifennydd Gwladol yn caniatáu ailddefnyddio ac adfer

**A yw'r bedd yn addas i'w ailddefnyddio neu ei adfer?**

- Rhaid i'r gladdedigaeth olaf fod 75 mlynedd yn ôl, 100 mlynedd yn ôl, neu gyfnod arall o amser cyn hynny – gofynnwn gwestiwn ymgynghori ar y pwynt hwn

Nac ydy

Ydy

**Hysbysiadau a gwrthwynebiad**

- Rhaid gosod hysbysiadau ar wefan, mewn papurau newydd lleol, ger y bedd, ac wrth fynedfeydd y fynwent
- Gall un hysbysiad gynnwys dileu hawliau claddu ac ailddefnyddio beddi
- Hysbysiadau a anfonir am chwe mis cyn y gellir ailddefnyddio neu adfer

Perthnasau neu berchennog bedd yn gwrthwynebu

Ni chaniateir ailddefnyddio a/neu ddileu hawliau claddu am 25 mlynedd

Dim gwrthwynebiadau perthnasol

**Ailddefnyddio neu adfer beddi**

- Gellir defnyddio dulliau codi a dyfnhau neu godi ac ailgladdu
- Rhaid cadw cofrestr o ddatgladdiadau
- Rhaid dweud wrth ddarpar brynwyr os bydd bedd wedi cael ei ailddefnyddio neu ei adfer

# Claddfeydd sydd wedi cau a chladdfeydd segur

## Claddfeydd sydd wedi cau

O dan y gyfraith bresennol, gellir cau pob claddfa rhag cael rhagor o gladdedigaethau gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Offerynnau cyfreithiol yw Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a gyhoeddir gan y Brenin drwy'r Cyfrin Gyngor a chyda cyngor ganddynt. Yn achos cau claddfeydd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud cais am un. Cyflwynwyd y gyfraith sy'n rheoli'r maes hwn yn y 1850au i fynd i'r afael â'r canfyddiad bod claddfeydd gorlawn yn peri risg i iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, maent bellach yn cael eu defnyddio'n bennaf i gau mynwentydd Eglwys Loegr.

Rydym o'r farn bod y defnydd o Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor i gau mynwent wedi dyddio, ac rydym yn cynnig dros dro ei fod yn cael ei ddisodli gan benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddai'r ddeddf ddiwygiedig yn nodi'r sail ar gyfer gwneud gorchymyn cau.

Ar hyn o bryd, nid yw'r gyfraith yn caniatáu ailagor claddfeydd sydd wedi cau. Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud wrthym y gallai fod ganddynt ddiddordeb mewn ailagor claddfeydd sydd wedi cael eu cau gan Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor. Bydd ymhell dros ganrif wedi mynd heibio ers y gladdedigaeth olaf mewn llawer o'r rhain, felly gallent fod yn addas ar gyfer ailddefnyddio beddi. Rydym yn cynnig dros dro y dylai fod yn bosibl hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol ailagor claddfeydd sydd wedi cau.



Pan fydd un o fynwentydd Eglwys Loegr yn cau, mae gan y cyngor plwyf eglwysig (corff gweithredol eglwys y plwyf) y pŵer i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ei chynnal a'i chadw i'r cyngor plwyf seciwlar, a all ei throsglwyddo wedyn i'r cyngor dosbarth. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r pŵer hwn, gan ei fod yn deillio o'r ddyletswydd sydd gan Eglwys Loegr i gladdu ei holl blwyfolion.

Fodd bynnag, byddai ein diwygiadau arfaethedig yn galluogi ailagor mynwentydd sydd wedi cau a throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros eu cynnal a'u cadw i awdurdodau lleol. Mae'r cwestiwn wedyn yn codi ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am eu cynnal pan fydd claddedigaethau newydd yn dechrau cael eu gwneud. Rydym yn cynnig dros dro y dylai barhau i fod o dan reolaeth yr awdurdod lleol, oherwydd byddai dychwelyd y cyfrifoldeb i'r Eglwys yn lleihau'r cymhelliant i ailagor mynwentydd. Fodd bynnag, rydym yn ymgynghori'n agored ynghylch a ddylid cael unrhyw ddarpariaeth i rannu ffioedd ar gyfer claddu, neu i godi ffi ychwanegol am gladdu mewn mynwentydd a oedd yn arfer bod wedi cau, a fyddai'n cael ei thalu i'r awdurdod lleol.

**Gweler Cwestiynau 25 i 30 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 7 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.**

## Claddfeydd wedi cau yng Nghymru

Nid oes gan yr Eglwys yng Nghymru bŵer cyfatebol i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal claddfeydd i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'n dal i fod dyletswydd arno i gladdu plwyfolion heb wahaniaethu. O ganlyniad, rydym wedi clywed bod yr Eglwys yng Nghymru yn gyndyn o agor claddfeydd newydd oni bai fod ganddynt gynllun gwaddol ac ariannol i'w cynnal am gyfnod amhenodol. Mae hyn, yn ei dro, yn cael effaith negyddol ar y mannau claddu sydd ar gael, yn enwedig mewn ardaloedd o Gymru wledig lle gallai mynwentydd awdurdodau lleol fod gryn bellter i ffwrdd.

Rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ar roi pŵer cyfatebol i'r Eglwys yng Nghymru drosglwyddo cyfrifoldeb cynnal a chadw i awdurdodau lleol. Rydym yn cydnabod y byddai hyn yn rhoi pwysau sylweddol o ran costau ar awdurdodau lleol Cymru.

**Gweler Cwestiwn 31 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 7 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.**

## Datgladdu

Mae datgladdu'n digwydd pan fydd gweddillion dynol yn cael eu symud o fan claddu. Mae'n drosedd i ddatgladdu heb awdurdod cyfreithlon. Gall y llys consistori roi'r awdurdod hwnnw os yw'r corff ar dir sydd wedi cael ei gysegru gan Eglwys Loegr, neu drwy drwydded gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder os nad yw hynny'n wir. Nid ydym yn cynnig gwneud newidiadau sylweddol i'r prosesau hyn, er ein bod yn cynnig dros dro y dylid cynyddu'r gosb uchaf am ddatgladdu anghyfreithlon.

Gweler Cwestiwn 33 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 8 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

## Claddfeydd segur

Mae Deddf Claddfeydd Segur 1884 yn gwahardd adeiladu ar gladdfeydd segur. Fodd bynnag, mae nifer o ddarpariaethau sy'n darparu eithriadau i'r rheol honno, sy'n galluogi defnyddio tir nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach ar gyfer claddu at ddibenion eraill. Mae'r darpariaethau hynny hefyd yn datgymhwyso'r gyfraith ar ddatgladdiadau. Nid oes rhaid i gladdfa fod wedi'i chau'n ffurfiol iddi fod yn segur, dim ond nad yw'n cael ei defnyddio ar gyfer claddu mwyach.

Mae'r eithriadau presennol i'r gwaharddiad ar adeiladu ar gladdfeydd segur yn berthnasol dan dri amgylchiad:

1. mynwentydd a chladdfeydd Eglwys Loegr;
2. claddfeydd crefyddol eraill; a
3. chladdfeydd sydd wedi cael eu caffael neu eu haddasu at ddibenion cynllunio.

Ym mhob achos, rhaid dilyn mesurau diogelu penodol. Ar gyfer claddfeydd crefyddol y tu allan i Eglwys Loegr, rhaid i berchennog y tir roi hysbysiad am bythefnos mewn papur newydd ac wrth ymyl y tir ei hun. Rhoddir chwe wythnos i gynrychiolydd personol (yr ysgutor neu'r gweinyddwr) neu berthnasau person sydd wedi'i gladdu yn ystod y 50 mlynedd diwethaf yn y gladdfa i wrthwynebu'r datblygiad, ac os ydynt yn gwneud hynny, ni chaiff fynd yn ei flaen.

Os nad oes gwrthwynebiad, rhaid symud neu amlosgi'r gweddillion sydd wedi'u claddu yn y tir, a rhaid delio â chofebion yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Rhaid rhoi hysbysiadau am y cynlluniau hyn, fel y gall perthnasau pobl sydd wedi eu claddu yn y gladdfa symud y gweddillion eu hunain ar gost perchennog y gladdfa.

O dan y gyfraith yn ei chyflwr presennol, nid oes unrhyw ddarpariaeth i ganiatáu adeiladu mewn mynwentydd preifat eraill, a mynwentydd awdurdodau lleol sy'n segur. Mae nifer o randdeiliaid wedi dweud wrthym fod hyn yn ddryslyd, ac yn rhwystr i gynaliadwyedd ariannol hirdymor y rheini sy'n gweithredu claddfeydd, gan gynnwys awdurdodau lleol.

Rydym yn cynnig dros dro y dylid ymestyn y cynllun sy'n berthnasol i gladdfeydd crefyddol nad ydynt yn rai Eglwys Loegr i bob claddfa breifat a chladdfa awdurdod lleol. Rydym hefyd yn gofyn a ddylai'r cyfnod pan all perthnasau pobl sydd wedi'u claddu yn y gladdfa atal datblygiad barhau i fod yn 50 mlynedd, ynteu a ddylid ei gysoni â'r cyfnod hwy o 75 neu 100 mlynedd rydym yn ymgynghori arno fel gofyniad cyn y gellir ailddefnyddio beddau.

Gweler Cwestiwn 36 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 8 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

# Y gyfraith sy'n berthnasol i wahanol fathau o gladdfeydd

## Dull o reoleiddio claddfeydd

Mae nifer cyfyngedig o gyfreithiau sy’n berthnasol i bob math o gladdfeydd, fel pwerau’r Ysgrifennydd Gwladol i’w harchwilio a cheisio Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor i’w cau, a’r ddyletswydd i gofrestru claddedigaethau. Mae llawer o agweddau eraill ar y gyfraith gladdu'n amrywio yn dibynnu ar a yw'r gladdfa'n cael ei gweithredu gan awdurdod lleol, Eglwys Loegr, yr Eglwys yng Nghymru, neu weithredwr preifat.

Gall hyn arwain at ddryswch ynghylch pa gyfreithiau sy’n berthnasol mewn unrhyw achos unigol ac, yn benodol, bu galwadau am fwy o reoleiddio mynwentydd preifat, o ystyried y diffyg cymharol yn y ddeddfwriaeth sy’n berthnasol iddynt ar hyn o bryd.

Nid ydym yn credu, fodd bynnag, y byddai’n briodol cymhwyso un set o gyfreithiau claddu unffurf i bob math o gladdfa. Mae’r gwahanol lefelau o reoleiddio sy’n berthnasol mewn mynwentydd awdurdodau lleol a phreifat yn adlewyrchu eu hanes a’u cyd-destunau gwahanol, ac efallai na fydd yr hyn sy’n gweithio i un sector bob amser yn gweithio i sector arall. Mae claddfeydd preifat yn fannau lle gall unigolion preifat ymrwymo i gontractau gyda chwmnïau neu sefydliadau preifat, ac mae claddfeydd preifat crefyddol yn fannau lle gallai rheolau’r gymdeithas breifat adlewyrchu arferion ac athrawiaethau’r grefydd honno.

Yn hytrach, rydym yn gwneud cynigion dros dro ar gyfer diwygio lle mae’r dystiolaeth yn awgrymu y dylai elfennau penodol o reoleiddio fod yn berthnasol i fathau penodol o gladdfeydd, neu, mewn rhai achosion, i bob math o gladdfeydd.

Gweler Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 2 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i’r afael â’r mater hwn.

### Cyfreithiau sy'n berthnasol i wahanol fathau o gladdfeydd

| | Awdurdod lleol | Eglwys Loegr | Yr Eglwys yng Nghymru | Preifat |
|---|---|---|---|---|
| Safonau cynnal a chadw | Ie | Ie | Ie | Rhai |
| Manylebau claddu | Ie | Na | Na | Na |
| Hawliau claddu a gyflwynir yn ysgrifenedig | Ie | Ie | Na | Rhai |

## Cynnal a chadw

Mae gwahanol safonau cynnal a chadw yn berthnasol i wahanol fathau o gladdfeydd.

1. Rhaid i awdurdodau lleol gadw eu mynwentydd mewn cyflwr da.
2. Mewn rhai mynwentydd preifat hŷn, mae deddfwriaeth sylfaenol yn dweud fod yn rhaid eu cadw mewn cyflwr da cyfan gwbl.
3. Mae cyfraith eglwysig yn dweud bod yn rhaid cadw mynwentydd Eglwys Loegr mewn modd trefnus a gweddus fel sy'n briodol i dir cysegredig.
4. Rhaid cadw mynwentydd yr Eglwys yng Nghymru mewn cyflwr gweddus, mewn modd sy'n diogelu'r fynwent er mwynhad y cyhoedd.

Ar ben hynny, bydd dyletswydd gofal gwahanol ar weithredwyr claddfeydd o dan Ddeddfau Atebolrwydd Deiliaid 1957 a 1984 i ymwelwyr ac i eraill, gan gynnwys tresmaswyr.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi awdurdod i archwilio unrhyw gladdfa neu fynwent i bennu ei gyflwr, ac, os bydd unrhyw reoliadau'n gymwys, a yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau hynny. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd geisio Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor i gau claddfa, neu fynnu bod camau'n cael eu cymryd i atal un rhag bod yn beryglus neu'n niweidiol i iechyd y cyhoedd.

Nid ydym yn ymwybodol o broblemau eang gyda'r safonau cynnal a chadw mewn mynwentydd yng Nghymru a Lloegr. Dros y degawd diwethaf, fodd bynnag, cafwyd rhai cwynion am safonau cynnal a chadw mewn mynwentydd awdurdodau lleol, ac roedd achosion prin o safonau gwael mwy sylweddol. Hefyd, mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym y byddent yn croesawu mwy o eglurder ac unffurfiaeth o ran cynnal a chadw.

## Safon cynnal a chadw unffurf

Credwn fod achos dros gael safon cynnal a chadw sy'n berthnasol i bob claddfa, gan gynnwys pob claddfa breifat. Nid mater preifat yn unig yw claddu, mae hefyd yn fater o bwysigrwydd cyhoeddus.

Bydd angen i safon cynnal a chadw unffurf fod yn sensitif i amgylchiadau gwahanol gladdfeydd, yn amrywio o gladdfeydd naturiol sydd newydd gael eu sefydlu i fynwentydd anenwadol sydd wedi'u cau ers tro. Am y rheswm hwnnw, rydym yn cynnig cael safon gyd-destunol dros dro: y dylai fod yn ofynnol i berchennog pob claddfa gadw ei gladdfa mewn cyflwr da sy'n briodol i'w ddefnydd presennol.

Mae diffyg tystiolaeth o broblemau cynnal a chadw sylweddol ac eang mewn claddfeydd. Gallai hyn fod oherwydd nad oes problem, neu gallai fod oherwydd bod problemau, ond nad yw pobl yn tynnu sylw atynt. Rydym yn gofyn i ymgyngoreion a oes ganddynt dystiolaeth am hyn.

Oherwydd nad oes digon o dystiolaeth, rydym yn gyndyn ynghylch gosod gofynion rheoleiddio pellach ar weithredwyr claddfeydd, y tu hwnt i ddyletswydd cynnal a chadw cyffredinol. Os bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn sefydlu'r angen am ofynion o'r fath, rydym o'r farn y gallai hynny fod ar ddwy ffurf bosibl: cod ymarfer statudol, neu ofyniad i weithredwyr claddfeydd gyhoeddi cynllun rheoli. Rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ar yr opsiynau hyn.

Gweler Cwestiynau 5 a 6 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 3 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

## Gorfodi

Er mwyn i safon unffurf o fanylebau cynnal a chadw a chladdu fod yn effeithiol, mae angen rhyw fecanwaith i'w gorfodi. Rydym yn credu mai'r opsiwn gorau yw cadw'r system bresennol a'i gwella – hynny yw, rhoi pwerau arolygu a gorfodi ad hoc i'r Ysgrifennydd Gwladol. Y prif arf sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar hyn o bryd yw ceisio Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor i fynnu bod camau'n cael eu cymryd. Byddai ein cynigion dros dro'n rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn ymateb i adroddiad arolygu, gyhoeddi hysbysiad yn mynnu bod gweithredwr safle claddu'n cymryd camau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, gan gynnwys y rheini a osodir gan y safon cynnal a chadw unffurf.

Ar hyn o bryd, gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol gymryd camau mewn perthynas â chladdfa. Rydym yn cynnig y dylid moderneiddio'r pŵer hwn dros dro, a galluogi'r awdurdod lleol i adennill costau cyflawni'r camau hynny ar berchennog y fynwent.

Gweler Cwestiynau 7 a 9 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 3 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

## Manylebau claddu

Mae pob mynwent awdurdod lleol yn ddarostyngedig i'r un rheolau o ran sut y dylid claddu corff. Does dim unrhyw fath arall o fynwent sy'n ddarostyngedig i set gyson o reolau.

O fewn mynwent awdurdod lleol, rhaid claddu corff ar ddyfnder o ddim llai na tair troedfedd, sy'n golygu na all unrhyw ran o'r arch fod yn llai na thair troedfedd o dan lefel y ddaear. Mae eithriad yn berthnasol pan fo'r arch wedi'i wneud o ddeunyddiau sy'n pydru a bod y pridd yn addas. Yn yr amgylchiadau hyn, does dim rhaid i fedd mewn mynwent awdurdod lleol fod mor ddwfn, gyda dyfnder o ddim llai na dwy droedfedd yn dderbyniol. Ceir darpariaethau penodol hefyd ynghylch beddau muriog a chladdgelloedd.

Does dim rheolau cyffredinol sy'n berthnasol i fynwentydd Eglwys Loegr na mynwentydd preifat ynghylch dyfnder lleiaf beddi.

Credwn fod achos dros gael un set o fanylebau claddu gofynnol ar gyfer pob gwahanol fath o gladdfa, oherwydd yr effaith y gall claddu amhriodol ei chael ar deuluoedd a ffrindiau pobl sydd wedi marw – yn enwedig os ydynt yn arwain at ddatgelu'r gweddillion. Y cwestiwn yw beth ddylai'r manylebau hynny fod.

Mae'r dystiolaeth wyddonol yn awgrymu bod yr hyn sy'n digwydd i gorff ar ôl iddo gael ei gladdu yn ddarostyngedig i ystod eang o ffactorau, fel ansawdd pridd a nodweddion corfforol y person sydd wedi cael ei gladdu. O ganlyniad, buan iawn y gallai rheolau ar sut y dylid claddu corff sy'n ceisio adlewyrchu'r holl ffactorau gwahanol hyn yn llawn drwy reolau gwahanol ar gyfer amgylchiadau gwahanol fynd yn feichus.

Nid ydym wedi clywed bod y rheolau presennol mewn mynwentydd awdurdodau lleol, hynny yw, claddu archau darfodus ddwy droedfedd i lawr mewn amodau pridd priodol, neu dair troedfedd fel arall, yn arwain at y canlyniadau negyddol hyn. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth gyfyngedig sydd gennym ar sail ymchwil yn awgrymu y dylai fod angen claddu'n ddyfnach pan fo cyrff yn cael eu claddu heb arch (yn benodol, mewn gorchudd). Rydym felly'n gofyn cwestiwn agored ynghylch beth ddylai'r gofynion fod ar gyfer manyleb gladdu unffurf. Rydym yn gwneud cynnig dros dro y dylai fod yn drosedd i dorri'r rheolau newydd.

Gweler Cwestiwn 10 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 3 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.



## Claddu a hawliau coffa

Mae gan bawb yn Lloegr hawl i gael eu claddu mewn mynwent Eglwys Loegr, sy'n cael ei alw'n "hawl arferol i gladdu". Mae'r gyfraith wedyn yn llywodraethu pa fynwentydd y mae gan berson yr hawl i gael ei gladdu ynddynt. Nid yw'r hawl arferol i gladdu yn cynnwys hawl i gael eich claddu mewn rhan benodol o'r fynwent neu'r gladdfa, nac i ragor o gladdedigaethau yn y llain fel bod aelodau'r teulu'n cael eu claddu yn yr un llain, nac i godi cofeb neu adeiladu claddgell. Er mwyn i unrhyw un o'r rhain gael eu caniatáu mewn mynwent Eglwys Loegr, rhaid cael hawleb.

Mae hawl claddu unigryw yn wahanol i'r hawl arferol i gladdu. Yn fras, hawl claddu unigryw yw'r hawl i gladdu un neu fwy o gyrff neu setiau o lwch mewn llain bedd penodol. Gall hawliau claddu unigryw gael eu rhoi mewn perthynas â chladdfeydd Eglwys Loegr, claddfeydd awdurdodau lleol neu gladdfeydd preifat.

Mewn mynwentydd awdurdodau lleol, deallwn mai'r arfer cyffredin yw caniatáu hawliau claddu a hawliau coffa unigryw am 50 neu 75 mlynedd, ond nid oes terfyn isaf yn y gyfraith. Nid oes modd rhoi'r hawliau hyn, yn y lle cyntaf, am fwy na 100 mlynedd, ond mae modd eu hymestyn. Rhaid iddyn nhw gael eu nodi'n ysgrifenedig, a gellir eu trosglwyddo drwy weithred neu eu hetifeddu. Gall awdurdod lleol hefyd, ar wahân, roi hawl i osod cofeb ar fedd, naill ai i'r person sy'n berchen ar yr hawl claddu neu i berthynas iddynt, os nad oes modd dod o hyd i berchennog yr hawl claddu.

Mewn claddfeydd preifat, mae statws hawliau claddu unigryw yn amrywio. Efallai y bydd gofynion ar fynwentydd preifat a sefydlwyd gan Ddeddfau Seneddol i gyhoeddi hawliau yn ysgrifenedig, ond efallai na fydd hynny'n wir am y rhai nad ydynt yn cael eu rheoli gan unrhyw ddeddfwriaeth.

Mae gwahanol effeithiau ar wahanol hawliau claddu unigryw. Mae'r rhain yn cynnwys y ffordd y rheolir datgladdiadau, rhwymedïau am dorri rheolau, pwy sydd â rheolaeth dros yr hawl ac a yw olynwyr yn y teitl yn rhwym wrth yr hawl.

## Problemau gyda hawliau claddu a hawliau coffa

Rydym wedi clywed am yr arferion amrywiol mewn mynwentydd preifat nad ydynt wedi'u sefydlu drwy statud pan ddaw'n fater o gyhoeddi hawliau claddu a hawliau coffa, gyda dogfennau'n amrywio o dderbynneb syml ar un pegwn y raddfa, i weithred ar y pegwn arall.

Rydym hefyd wedi clywed am anghydfodau lle nad yw aelodau o deuluoedd pobl sydd wedi marw wedi gallu gosod unrhyw gofeb dros eu beddau oherwydd nad yw aelod arall o'r teulu, sy'n berchen ar yr hawl claddu, wedi rhoi'r hawl iddynt neu'n gwrthod gwneud hynny.




## Diwygio'r gyfraith

Rydym o'r farn y byddai gosod rhai o'r gofynion ffurfioldeb a chadw cofnodion sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer mynwentydd awdurdodau lleol ar bob mynwent breifat yn mynd i'r afael â rhai o'r materion rydym wedi clywed amdanynt, ynghylch perthnasau ac ysgutorion pobl sydd wedi marw, yn cael ychydig iawn o wybodaeth am yr hawliau y maent wedi'u prynu. Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyhoeddi pob hawl claddu a phob hawl coffa yn ysgrifenedig.

Rydym hefyd o'r farn y gallai fod budd o gyflwyno cynllun dewisol o hawliau claddu unigryw statudol mewn mynwentydd preifat, ac ymgynghori dros dro ar gynnig o'r fath. Gallai cynllun o'r fath gynnig sicrwydd ac eglurder i brynwr yr hawl. Gellid ystyried ei fod o fudd i weithredwyr mynwentydd, drwy arbed costau amser i greu eu cynllun eu hunain.

Rydym hefyd yn cynnig dros dro, pan na fydd unrhyw gofeb yn cael ei chodi dros fedd o fewn dwy flynedd, y dylid caniatáu i awdurdodau lleol roi hawl i unrhyw berthynas i'r sawl sydd wedi marw i osod cofeb ar y bedd – un â geiriad niwtral, os oes unrhyw anghydfod ynghylch yr hyn y dylid ei ddweud ar y gofeb.

Gweler Cwestiynau 11 i 13 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 4 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

# Claddedigaethau ar dir preifat

Credir bod claddu ar dir preifat, yn hytrach nag mewn claddfa (gan gynnwys claddfa breifat), yn beth prin. Mae'n cael ei ddefnyddio'n aml pan fydd gan y sawl sydd wedi marw gysylltiad â'r tir, fel fferm deuluol neu ystâd â thiroedd. Does dim cyfraith sy'n gwahardd claddu ar dir preifat. Rhaid i gladdedigaethau ar dir preifat lynu wrth y gyfraith sy'n berthnasol i bob math arall o gladdedigaeth, fel cofrestru marwolaethau a chyfraith amgylcheddol.

Rhaid cofrestru claddedigaethau ar dir preifat hefyd. Fodd bynnag, does dim unrhyw ofyniad bod y gofrestr yn cael ei throsglwyddo pan fydd y tir yn cael ei werthu neu ei drosglwyddo. Gallai hyn arwain at broblemau, fel gwaith adeiladu yn y dyfodol sy'n arwain at ddatgladdu gan achosi gofid a chost i'r perchnogion newydd, a theulu'r ymadawedig. Rydym yn cynnig dros dro y dylai fod yn drosedd peidio â throsglwyddo'r cofnod o gladdedigaeth a wneir ar dir preifat pan werthir eiddo ar y tir.

Gweler Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 2 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

**Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad**

Sefydlwyd Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad o dan y Siarter Frenhinol ym 1917 i goffáu'r 1.7 miliwn o ddynion a menywod yn y Lluoedd Arfog a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd.

Rhoddir hawliau penodol i'r Comisiwn er mwyn iddo warchod claddedigaethau rhyfel yn y gyfraith sy'n rheoli mynwentydd awdurdodau lleol, mynwentydd Eglwys Loegr, yn y gyfraith ar ailddefnyddio beddau, ac yn y gyfraith ar adeiladu ar hen gladdfeydd.

Fodd bynnag, mae bylchau yn yr hawliau hyn, ac rydym yn gwneud cynigion dros dro a fyddai'n mynd i'r afael â nhw. Rydym hefyd yn gwneud cynigion dros dro a fyddai'n rhoi hawliau newydd i'r Comisiwn mewn perthynas â mynwentydd preifat. Mae Pennod 9 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

# Amlosgi

Diwygiwyd y rheoliadau sy'n rheoli amlosgi yn fwy diweddar na'r gyfraith claddu, ac maent yn parhau i fod mewn cyfnod pontio ar ôl cyflwyno'r system newydd ar gyfer archwilwyr meddygol statudol. Fodd bynnag, mae materion penodol sy'n parhau i fod yn deilwng o gael eu hadolygu.

Yn ogystal â'r materion hyn, rydym yn nodi y gall y rheolau presennol sy'n rheoli ceisiadau amlosgi arwain at anghydfodau, gan gynnwys ynghylch pwy ddylai allu cael y llwch ar ôl amlosgi. Credwn mai'r unig ffordd y gellir ystyried y mater hwn yn briodol yw ochr yn ochr â'r mater cyffredinol o bwy ddylai gael yr hawl i benderfynu beth sy'n digwydd i'n cyrff ar ôl i ni farw. Bydd y mater hwnnw'n cael sylw yn nhrydedd ran y prosiect **Claddu, Amlosgi a Dulliau Angladdol Newydd**, felly nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar hyn o bryd – ond rydym yn gofyn am dystiolaeth ynghylch graddfa'r broblem.

Gweler Cwestiwn 45 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 11 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

## Llwch heb ei gasglu a rheoliaduron calon a dynwyd

Mae dau fater sy'n ymwneud â chyfraith amlosgi'n achosi problemau penodol mewn perthynas â threfnwyr angladdau.

Yn gyntaf oll, mae'r gyfraith yn caniatáu i amlosgfeydd wasgaru neu gladdu llwch ar ôl 14 diwrnod os nad ydynt yn cael eu casglu. Does dim darpariaeth debyg ar gyfer trefnwyr angladdau, a chafwyd adroddiadau eu bod yn dal chwarter miliwn o setiau o lwch heb eu casglu o ganlyniad i hynny. Yn ogystal â'r anawsterau ymarferol sy'n codi o storio llwch, nid yw adeiladau trefnwyr angladdau'n fannau gorffwys terfynol addas.

Rydym yn cynnig dros dro, lle bo trefnwyr angladdau wedi cadw llwch am o leiaf bedair wythnos, y dylen nhw gymryd camau rhesymol i gysylltu â'r sawl a wnaeth gais am yr amlosgi i ganfod beth maen nhw'n dymuno i ddigwydd i'r llwch. Os nad yw'r ymgeisydd yn ymateb o fewn pedair wythnos, dylai'r trefnydd angladdau allu dychwelyd y llwch i'r amlosgfa, a dylai fod dyletswydd ar yr amlosgfa i'w derbyn. Yna, byddai'r amlosgfa yn gallu claddu neu wasgaru'r llwch o dan ei bwerau presennol. Byddai'r cynnig dros dro hwn yn berthnasol yn ôl-weithredol, hynny yw, i lwch sydd heb ei hawlio ar hyn o bryd ac sydd ym meddiant trefnwyr angladdau, yn ogystal â llwch na fydd yn cael ei gasglu yn y dyfodol.



Yn ail, oherwydd canlyniad anfwriadol canllawiau'r Llywodraeth yn yr 1980au, mae llawer o drefnwyr angladdau'n dal nifer fawr o reoliaduron calon a dynnwyd cyn amlosgi am resymau diogelwch, ac nid oes ganddynt awdurdod cyfreithiol i'w gwaredu. Rydym yn cynnig cynllun dros dro i'w galluogi i'w gwaredu fel y maent yn dymuno, unwaith y bydd perthnasau'r ymadawedig wedi cael cyfle i'w hawlio.

Gweler Cwestiynau 50 a 53 yr Ymgynghoriad. Mae Penodau 11 ac 13 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

## Ble gall amlosgi ddigwydd

Mae cyfraith amlosgi'n cyfyngu ar ble gellir adeiladu amlosgfeydd newydd. Rhaid eu hadeiladu o leiaf 200 llath o dŷ annedd (oni bai fod y perchennog, y lesydd a'r meddiannydd yn cydsynio'n ysgrifenedig) a 50 llath o briffordd gyhoeddus.

Cyflwynwyd y gofyniad hwn yn Neddf Amlosgi 1902, oherwydd pryderon am effaith amlosgi ar ansawdd aer. Er bod sensitifrwydd yn parhau i fod ar y pwynt hwn, mae gofynion diogelu'r amgylchedd mewn perthynas ag amlosgi yn helaeth a dylent sicrhau nad yw allyriadau, yn enwedig o amlosgfeydd newydd, yn niweidiol i iechyd y cyhoedd. Byddai rhai'n dweud nad yw'r rheol yn cyflawni'r diben y cafodd ei chyflwyno ar ei gyfer mwyach.



Fodd bynnag, mae'n ymddangos o achosion cynllunio y gallai'r rheol fod yn cyflawni pwrpas gwahanol erbyn hyn, sef galluogi adeiladu amlosgfeydd ar safleoedd Llain Las a chefn gwlad lle na fyddent yn cael eu caniatáu fel arall. Dadleuwyd hefyd ei fod felly'n sicrhau lefel briodol o ddifrifoldeb mewn amlosgfeydd, drwy gyfyngu ar sŵn ac aflonyddwch gan gymdogion. Am y rheswm hwn, rydym yn gofyn cwestiwn agored ynghylch a ddylid diddymu neu gadw'r rheol ynghylch lle gellir lleoli amlosgfeydd.

Gweler Cwestiwn 51 yr Ymgynghoriad. Mae Pennod 12 y Papur Ymgynghori llawn yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

## Y camau nesaf

Mae'r cynigion dros dro yn y Papur Ymgynghori llawn yn gyfle allweddol i ddiweddaru'r gyfraith sy'n rheoli claddu ac amlosgi. Bydd gwneud hynny'n sicrhau, gyda mesurau diogelu priodol, bod y gallu i ailddefnyddio ac adfer hen feddi ar gael i sicrhau gofod claddu ar gyfer y dyfodol ledled y wlad. Bydd yn galluogi ailagor mynwentydd Eglwys Loegr sydd wedi cau er mwyn i fwy o bobl gael mynediad at le claddu yn agos atynt, ac mewn lleoliadau sy'n golygu rhywbeth iddynt. Bydd yn sicrhau bod digon o amddiffyniadau ar gyfer pobl mewn profedigaeth sy'n dewis claddu eu teuluoedd a'u ffrindiau, pa fath bynnag o gladdfa y maent yn ei ddefnyddio. Bydd yn mynd i'r afael ag agweddau ar gyfraith amlosgi sydd heb eu datrys ac sydd wedi dyddio.

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ein galluogi i wneud argymhellion terfynol sy'n adlewyrchu arbenigedd y rheini sy'n gweithio yn y sector claddu ac amlosgi, a phrofiadau go iawn y rheini sy'n defnyddio'r sector ar gyfer angladdau eu ffrindiau a'u perthnasau.

Find out more at design102.co.uk
**Design that makes a difference**